

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**  
**Fforwm Derbyn i Ysgolion (MS Teams)**  
**19 Tachwedd 2021**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Lis Burnett, Lisa Lewis, Sam Mawhinney, Anne Robertson, Rhian Andrew, Nathan Slater  
**YMDDIHEURIADAU:** Sian Lewis, Trevor Brown, Mike Matthews, Ceri Thomas, Andrew Ricketts, Andrew Hennessey, Jane Werrett

<b>EITEM</b>	<b>MATER</b>	<b>CAMAU I'W CYMRYD</b>	<b>Aelod</b>
2	Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir.	
3	Materion yn codi	Dim	
4	Diweddariad Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	Cyflwynodd N.S ddiweddariad ar Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif, ac eglurodd y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg ac ADY a darparodd ddelweddau o amcanestyniadau'r ysgolion ar hyn o bryd ac wedi'u cynllunio. L.B yn diolch i dîm Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif am eu gwaith caled a'u llwyddiant hyd yn hyn.	
5	Adroddiad Blynyddol Drafft y Fforwm Derbyn i Ysgolion	Aeth SM drwy'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn ddogfen statudol y mae'n rhaid ei chwblhau'n flynyddol a'i hanfon i Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi adroddiad ar effeithiolrwydd trefniadau derbyn i ysgolion. Dywedodd AR am lwyddiant trefniadau cydlynol ar gyfer ysgolion a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru, mae ysgolion yn hapus iawn gyda'r trefniadau hyn. Diolchodd AR am yr adborth. Ysgol Gatholig Sant Joseph yn cymryd rhan yn y trefniadau cydlynol ar gyfer derbyniadau i'r dosbarth derbyn ym mis Medi 2022. Bydd trefniadau cydlynol yn sicrhau nad yw rhieni'n cadw mwy nag un lle mewn ysgol sy'n rhoi ansicrwydd i ysgolion wrth reoli derbyniadau i ysgolion. Croesawyd ymagwedd gydlynol. Cytunwyd oherwydd presenoldeb isel, y byddai'r adroddiad yn cael ei rannu gydag aelodau'r fforwm nad ydynt yn bresennol i ychwanegu eu sylwadau ac awgrymu unrhyw welliannau ac ati.	
6	Ymgynghoriad ar drefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer 2023/2024	Amlinellodd SM y trefniadau derbyn ar gyfer 2022/23 i fynd i'r cabinet y mis *Rhagfyr 2021*. Dim newidiadau o ran y polisi derbyn a'r meini prawf gordanysgrifio.	

7	Diweddariad ar y rowndiau derbyn blynyddol ac apeliadau	<p>Mae S.M yn amlinellu'r crynodeb derbyn i ysgolion ac yn egluro'r broses ar gyfer pob rownd dderbyn. Esboniodd S.M fod proses Uwchradd 2022 yn dod i ben yn fuan a dadansoddodd nifer y ceisiadau hyd yn hyn. Darparodd SM hefyd y wybodaeth ddiweddaraf ar broses a nifer y ceisiadau i ddisbarthiadau Derbyn 2022 hyd yn hyn. Mae'r tîm derbyn wedi gwneud ymdrech enfawr i gysylltu â rhieni a'u cynghori ynghylch eu cais a'u dewisiadau.</p> <p>L.B ac L.L yn diolch i'r tîm Trefniadaeth Ysgolion am eu gwaith caled a'u llwyddiant hyd yn hyn.</p>	
9	Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg y Fro	Amlinellodd L.L ymgynghoriad CSCA a'r dyddiad cau, sef 10 Rhagfyr, gan annog yr holl bartïon i ymateb er mwyn rhoi trosolwg gwell. Gwnaeth L.B sylwadau ar drafodaethau diweddar ynghylch y mater a bydd yn cael ei ddiweddarau yn y cyfarfod nesaf.	
10	Dyddiad y cyfarfod nesaf	10 Mehefin 2022 - i'w gadarnhau	
11	Unrhyw Fater Arall	Na	